**Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC–07-02 (p6 )**

**Dyddiad: Dydd Iau 14 Tachwedd 2002**

**Amser:**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3&4**

**Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Y diweddaraf ar ddiwygio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol**

**Diben**

1. Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa bresennol o ran diwygio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol, fel a addawyd yn y cyfarfod llawn yr haf diwethaf.

   **Crynodeb**

2. Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ac mae eisoes wedi cyfarfod ddwywaith i gytuno ar ei rôl a'i gylch gorchwyl, i ymgyfarwyddo â'r cynllun diwygiedig, a chytuno ar amlinelliad ohono.

   **Y Sefyllfa Bresennol**

3. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect i wireddu ymrwymiad y Cynulliad i ddiwygio ei Gynllun Cydraddoldeb Hiliol, ac mae eisoes wedi cwrdd ym mis Medi a Hydref. Ymunodd Mr Dhamendra Kanaani, pennaeth gweithredol Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru, â'r Bwrdd yn y ddau gyfarfod. Cytunodd y Bwrdd ar ei rôl a'i gylch gorchwyl, ar amlinelliad o'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun wedi'i wella, a chytunodd y Bwrdd hefyd bod gofyn iddynt hwy, y Bwrdd Gweithredol a'r Penaethiaid Adran, ymgyfarwyddo â'r cynllun. Maent wedi cytuno ar amlinelliad o'r cynllun diwygiedig, gan gynnwys y cynlluniau gweithredu arfaethedig ar lefel adrannol a unwyd i ffurfio cynlluniau Grwp/ Cyfarwyddiaeth. Bydd y Cynulliad yn ymgynghori'n eang ar y cynlluniau hyn ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn flynyddol. Er y dylid, yn sgil y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), rhoi blaenoriaeth i faterion sy'n ymwneud â hil, cynigwyd hefyd bod ymrwymiad adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn golygu y dylid ehangu'r maes fel y bydd, yn y dyfodol, yn cynnwys yr holl agweddau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal. Bydd y Bwrdd yn awr yn ystyried cynllun drafft diwygiedig, cynllun prosiect manylach a phroses ar gyfer datblygu'r cynlluniau gweithredu adrannol. Caiff adroddiad arall ar hynt y gwaith ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr.